424

# TRYDEDD GAN
# DAVID DAVIES
## (DAI'R CANTWR),

*Yn gosod allan ei alar dwys a'i hiraeth trwm am ei wlad enedigol, yn nghyd a rhybuddion i bawb ochelyd pechod.*

---

*A dderbyniwyd mewn llythyr at Gyfaill, Ebrill* 12, 1851.

---

YN awr, gyfeillion, o un galon,
  Yn gyson nos a dydd,
De'wch i wrandaw arna'i cwyno,
  Heb flino, yn ddigudd ;
Clywch fy mhrofiad mewn caethiwed,
  Yr wyf mewn galar dwys,
Yn hiraethu a galaru
  Am Gymru landeg, lwys.

Mae'n galed arnaf fi,
  'Rwy'n dweyd y gwir i chwi,
Digalon hynod bob diwrnod,
  Diddarfod yw fy nghri ;
Heb un gobaith gwaredigaeth,
  Dd'od o'r caledwaith hwn,
Hyd nes talu'r ffyrling eithaf,
  A'r olaf oll mi wn.

Gofidus meddwl am y cwmwl
  Ddaeth ar feddwl f' anwyl dad,
Am ei blentyn aeth mor sydyn
  Yn mhell o dir ei wlad,
Heb un gobaith gwaredigaeth,
  Taith hirfaith ydyw hon ;
O mor galed ydyw clywed
  Fath deimlad dan fy mron !

Mae'r wlad lle 'r wyf fi 'n awr,
A'i deddfau, bach a mawr,
Na chaf fi weled, 'chwaith na chlywed,
Gan neb am doriad gwawr !
Rhaid yw aros yn yr hir-nos
Yn ngwlad y negro du,
Dan gaethiwed, heb gael clywed
Am ymwared mwy i mi.

Rhaid dyoddef gwaethaf gwg
Yn mysg y tarth a'r mwg,
A diffyg gwynt mewn lleoedd enbyd,
Llawn sulpher drewllyd drwg ;
Os caf fi dd'od oddiyma
Mi gana'n iach mi wn,
Am gael rhyddhad o waelod
Fath hynod le a hwn.

Gwelais rai yn dyfod yma
O Aberteifi lon,
Aberhonddu a Chaerfyrddin,
Dros fôr a'i erwin don,
A swydd Benfro i'w halltudio,
'Rwy'n cofio am y dydd,
O Forganwg hardd ei golwg
Daeth llu a'u bronau'n brudd.

Hwy a yrwyd dros y môr,
I blith y duon gor,
I weithio'n galed mewn caethiwed,
Yn slafiaid hynod oer ;
Dyma sydd yn tori 'n nghalon
Yn gyson ddydd a nos,
Fy mod wedi gadael Cymru,
A gwadu Crist a'i gro's.

O mor hyfryd oedd fy mywyd
Mewn hawddfyd gyda chwi !
'Nawr 'rwy'n cwyno a gofidio
Yn ngwlad y negro du,
Wedi colli fy nghymeriad,
'Rwy'n awr mewn teimlad dwys,
Yn hiraethu a galaru
Am Gymru landeg lwys.

X205230511

O na chawn wel'd fy ngwlad,
  Ac anwyl dŷ fy nhad,
A'm cyfeillion o un galon
  Fu'n ffyddlon a difrad !
A'i bras ddolydd braf, a'i broydd,
  Mor ddedwydd gynt i mi,
Yn gwisgo 'i harddwch a'i holl degwch,
  Hawddgarwch fel y lli'.

Gwlad helaeth ydyw hon,
  Gwlad hyfryd, hardd a llon,
Gwlad na chlywais i mewn hanes
  Am gynes un fel hon ;
Gwlad sy'n magu ei holl deulu
  Yn fwyngu yn mhob man,
Gwlad sy'n rhoddi lluniaeth hyfryd
  Heb adfyd byth i'w rhan.

Deffrowch yn ufudd bawb drwy'r gwledydd,
  A'r trefydd yn ddidrai,
Gweddiwch beunydd am wir grefydd
  Eich llywydd i'ch gwellhau.
Cyhoeddi'n eglur mae'r Ysgrythyr,
  Yn gywir iawn i ni,
Daw ar yr annuwiol creulon
  Echryslon boen a chri.

Yn awr cymerwch fi
  Yn rhybudd llawn i chwi,
I beidio dilyn llwybrau'r gelyn,—
  Hen wreiddyn chwerw sy'
Yn tynu lluoedd dros y moroedd
  Yn gyhoedd ddydd a nos,
Nes eu gyru i warthruddu
  Eu teulu yn mhob oes.

Mae'n galed ar bob gwr
  Sy'n magu plant, yn siwr,
Wedi hyny yn eu gweled
  Yn myned dros y dw'r !
Pan yn gweled ac yn clywed,
  Maent oll dan deimlad dwys,
Holl yn gwaeddi am eu claddu
  Cyn hyny dan y gwys.

Wel, 'nawr 'rwy'n uchel roddi ffarwel,
Yn dawel i fy ngwlad,
A'm cym'dogion oll yn unol,
Ac anwyl dŷ fy nhad;
Nid yw'r môr a'i donau hagar
'N ddim galar trwm i mi
At fod dan law paganiaid
Yn ngwlad y negro du.

Yn awr, chwi fechgyn llon,
Trwy Gymru anwyl, gron,
O gweddiwch a myfyriwch
Na bo i chwi groesi'r don.
Duw o'i ras a roddo rwydd-deb
I'ch cadw yn eich gwlad;
Ei drugaredd a'i wirionedd
Sy'n beraidd er lleshad.

Ffarwel i Gymru lan,
A'i deiliaid fawr a man,
O gweddiwch a myfyriwch,
Darllenwch hyn o gân;
Byddwch berffaith trwy bob trafferth,
A phrydferth a di-sen,
Yw dymuniad dwys fy enaid,
Mewn teimlad dwys. Amen.

ARGRAFFWYD GAN WALTER LLOYD, "GWLADGARWR," ABERDAR.